

CYNGOR CYMUNED PENTREFOEAL COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Paul Weston

Pwyllgor Blynyddol nos Lun Mai 9fed 2016 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. Croesawyd yr aelodau ynghyd ag aelodau o'r cyhoedd i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd
2. **Ymddiheuriadau:** Dim
3. **Cofnodion Blynyddol 2015** cynigwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio.
4. **Materion yn codi:** System Cyfrifon/rheolau - Cafwyd yn ddigonol a phenderfynwyd parhau a'r system bresennol.
Polisi Cydraddoldeb:
 - i) Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rhwymedigaethau i weithredu'n deg, yn gyfiawn ac yn unol â'r gyfraith.
 - ii) Yn benodol, ni fydd unrhyw aelod neu weithiwr posibl yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail rhyw, hil neu anabled. Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas yn ymestyn y cysyniad o gyfle cyfartal i gynnwys gwahaniaethau ar sail credoau crefyddol neu wleidyddol neu gyfeiriadedd rhywiol.
 - iii) Mae'r polisi hwn yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni.
 - iv) Bydd yn cael ei adolygu ac os oes angen, yn cael ei ddiwygio yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol neu sefydliadol.
5. **Cwestiynau o'r llawr:** Dim.
6. **Mantolen Ariannol 2015-2016** – Gan nad oedd yr Archwiliwr Mewnol yn fodlon arwyddo'r ffurflen nid oedd yn bosib cwblhau'r fantolen. (Gweler rhif 10 o Gofnodion mis Mai)
7. **Adroddiadau gan Gynrychiolwyr y Mudiadau**
 - i) Edmund Rees (Elusen Ysbyty) Elusendy gwag ers mis Ionawr angen hysbysu.
 - ii) Paul Weston (Pwyllgor Ganolfan) Clwb Chwaraeon wedi ei ffurfio ar gyfer y plant, hefyd nosweithiau o snwcer. Angen syniadau ar gyfer mwy o weithgareddau.
 - iii) Paul Weston (Foelas Cyf) 4 uned ar osod ar hun o bryd.
 - iv) Edmund Rees (Un Llais Cymru) gweler rhif 8 o Gofnodion mis Mai
 - v) Gari Jones (Llywodraethwyr) angen atgyweirio toiledau'r plant ar gost o tua £54,000. Wedi prynu offer chwarae gwerth £5,000 i'r ysgol.
8. **Penodi Swyddogion:-**
 - a) Cadeirydd - Alun Owen.
 - b) Is-gadeirydd - Gari Jones.
 - c) Elusen Ysbyty - Edmund Rees.
 - ch) Pwyllgor y Ganolfan - Paul Weston.
 - d) Foelas Cyf - Paul Weston.
 - dd) Un Llais Cymru - Edmund Rees ac Alun Edwards.
 - e) Llywodraethwyr - Gari Jones.

9. **Trosglwyddwyd** y Gadeiryddiaeth i'r Cadeirydd newydd sef Alun Owen gan Paul Weston a diolchodd i bawb am ei cydweithrediad a dymunodd yn dda i Alun Owen..
10. **Derbyniwyd** y Gadeiryddiaeth a diolchwyd i Paul Weston am ei arweiniad.
11. **Unrhyw fater arall** - Dim.

Arwyddwyd _____
Cadeirydd

Dyddiad _____
